

Polisi dim sbwriel



Egwyddorion

Mae Ysgol ABC yn credu bod gan bob aelod o'r gymuned ysgol yr hawl i ddysgu, gweithio a chymdeithasu mewn amgylchedd glân, diogel a hapus.

Nodau

Mae'r ysgol yn ymdrechu i gael amgylchedd sydd yn rhydd rhag sbwriel.

Bydd yr ysgol yn addysgu parchu'r amgylchedd.

Bydd yr ysgol yn ceisio lleihau, aildefnyddio ac ailgylchu lle y bo'n bosibl i leihau sbwriel.

Bydd yr ysgol yn ceisio cefnogi'r nodau uchod y tu hwnt i gatiâu'r ysgol ac yn y gymuned leol.

Cred yr ysgol fod gan bob aelod o gymuned yr ysgol yr hawl i awgrymu ffyrdd o wella amgylchedd yr ysgol.

Cyfrifoldebau

Mae gan bob aelod o gymuned yr ysgol gyfrifoldeb i:

- Beidio creu sbwriel
- Lleihau gwastraff ac ailgylchu lle y bo'n bosibl
- Codi unrhyw sbwriel sydd o amgylch y lle

Mae gan bob aelod o'r staff gyfrifoldeb i:

- Gefnogi disgyblion yn eu hymdrechion i ymdrin â phroblemau sbwriel
- Sicrhau bod dileu sbwriel yn dal yn eitem proffil uchel ar yr agenda

Mae gan Reolwr y Safle gyfrifoldeb i:

- Wacau biniau gwastraff
- Cydlynu gwaredu gwastraff o'r safle yn ddiogel
- Cynorthwyo'r gwaith o gadw'r safle'n lân

Mae gan yr Eco-Bwyllgor gyfrifoldeb i:

- Ffonitro ac adrodd ar y sefyllfa sbwriel.
- Gwrando ac ymateb i awgrymiadau gan gymuned yr ysgol
- Hybu negeseuon dim sbwriel ar draws yr ysgol

Cytundeb

I'w lofnodi a'i ddyddio gan: e.e. CYNRYCHIOLWYR DISGYBLION, STAFF, RHEOLWR Y SAFLE A'R PENNAETH

PENNAETH

CYNRYCHIOLWYR
DISGYBLION

STAFF

RHEOLWR Y SAFLE

Llofnod

Llofnod

Llofnod

Llofnod

Dyddiad

Dyddiad

Dyddiad

Dyddiad